## PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADDYSG, IEUENCTID A DIWYLLIANT

## 1 GORFFENNAF 2021

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd dros y we ddydd Iau, 1 Gorffennaf 2021.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Healey (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Janet Axworthy, Sian Braun, Bob Connah, Paul Cunningham, Gladys Healey, Joe Johnson, Dave Mackie, Ian Smith a Martin White

**AELOD CYFETHOLEDIG:**
Lynn Bartlett

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Tudor Jones, Mrs Wendy White a'r Prif Swyddog (Addysg ac Ieuenctid)

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Patrick Heesom (ar ran y Cynghorydd David Williams).

**CYFRANWYR:**
Y Cynghorydd Ian Roberts, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Addysg ac Uwch Reolwr Gwella Ysgolion.
Mr Martyn Froggett, Arweinydd Craidd Uwchradd Sir y Fflint a Mr David Edwards, Arweinydd Craidd Cynradd Sir y Fflint (GwE) (ar gyfer eitem 5)
Ymgynghorydd Dysgu (Iechyd, Lles a Diogelu) (ar gyfer eitem 6)
Ymgynghorydd Polisi Strategol a Rheolwr Budd-Daliadau (ar gyfer eitem 7)
Uwch-Reolwr (Newid Busnes a Chymorth) (ar gyfer eitem 8)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Addysg, Ieuenctid a Diwylliant, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Cefnogi Gwasanaethau Democrataidd

### 06 DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

### 07 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 Mawrth ac 14 Mehefin 2021.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2021, fel y cawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Dave Mackie a Paul Cunningham.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2021, fel y cawsant eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Gladys Healey a Paul Cunningham.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

## 08 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r adroddiad a chadarnhaodd fod dyddiadau'r holl gyfarfodydd wedi'u cynnwys yn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai. Mae'r adroddiadau rheolaidd ac eitem ychwanegol ar gyfer mis Medi ar y Gwasanaeth Archif wedi'u hychwanegu a chadarnhaodd y bydd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn cael ei llenwi cyn cyfarfod mis Medi. Bydd eitem ar Addysg Gartref, a awgrymwyd gan y Cynghorydd Gladys Healey, hefyd yn cael ei chynnwys a dywedodd fod modd i aelodau ychwanegu eitemau eraill at y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol drwy gysylltu â hi. Mae'r holl gamau gweithredu yn yr adroddiad Olrhain Camau Gweithredu wedi'u cwblhau.

Cafodd yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cynghorydd Gladys Healey a'u heilio gan y Cynghorydd Bob Connah.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;
(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a
(c) Nodi cynnydd y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

## 09 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETH GWELLA YSGOLION RHANBARTHOL (GWE)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Uwch-Reolwr Gwella Ysgolion ac roedd yn cynnwys trosolwg o'r gefnogaeth a roddir gan y Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) a'u hadroddiad blynyddol ynglŷn â'u gwaith ar draws y gogledd. Cyfeiriodd yr Uwch-Reolwr at y gwaith yn ystod y pandemig, a oedd yn cynnwys dysgu o bell a dysgu cyfunol, cymorth ac arweiniad i ysgolion a'r diwygio cenedlaethol a'r cwricwlwm newydd, a diolchodd iddynt am gefnogi ysgolion Sir y Fflint.

Darparwyd yr adroddiad a'r cyflwyniad gan Mr Martyn Froggett, Arweinydd Craidd Uwchradd Sir y Fflint a Mr David Edwards, Arweinydd Craidd Cynradd Sir y Fflint ac roeddynt yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y gefnogaeth a ddarparwyd a'i heffaith ar ysgolion.

Roedd y cyflwyniad yn cynnwys gwybodaeth fanwl ar:

- Y gefnogaeth gyffredinol a ddarparwyd i ysgolion a'r Awdurdod Lleol ers mis Ionawr
- Cymorth a ddarparwyd i ysgolion yn dilyn argymhellion Estyn ar ddiwedd yr adolygiad thematig

- Cynllunio a chymorth i ysgolion roi Cwricwlwm i Gymru ar waith ym mis Medi

Diolchodd y Cynghorydd Mackie i'r swyddogion am yr adroddiad. Gwnaeth sylwadau ar gynnwys yr adroddiad a'r wybodaeth, megis nifer yr ymweliadau ysgol a gofynnodd beth oedd pwrpas yr ymweliadau hyn. Gofynnodd hefyd am adborth cyffredinol gan bobl sydd wedi bod ar gyrsiau, gwybodaeth am ddysgu proffesiynol a nifer y swyddogion o Sir y Fflint sy'n cymryd rhan a'u hadborth, a sut mae datblygiad rhaglen Sir y Fflint yn cymharu â rhaglenni awdurdodau eraill y gogledd.

Mewn ymateb, dywedodd yr Uwch-Reolwr mai hwn oedd Adroddiad Blynyddol Gogledd Cymru GwE a chytunodd fod rhai elfennau o'r adroddiad wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor yn barod ond bod y sleidiau yn darparu gwybodaeth gadarnhaol ar sefyllfa ddiweddar ysgolion. Fel gyda mesuryddion perfformiad eraill, mae adrodd cenedlaethol a chanlyniadau'r system arholi wedi'u hatal a'r ffocws wedi'i roi ar gefnogi i sicrhau bod darpariaeth yn ei lle.

Roedd yr Arweinydd Craidd Uwchradd yn deall sylwadau'r Cynghorydd Mackie ond dywedodd nad oedd y data arferol ar gael i'w gyflwyno a bod lles wedi bod wrth wraidd eu dull ar gyfer ysgolion. Cadarnhaodd fod data ar gael ar y cyrsiau a ddarparwyd a'r hyn sy'n digwydd yn Sir y Fflint. Cytunodd, i'r dyfodol, y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn yr adroddiadau o safbwynt Sir y Fflint ac er mwyn cymharu ac ychwanegodd y bydd gwybodaeth am gyfranogiad y gweithdai Cwricwlwm i Gymru ar gael yn fuan a bod modd cynnwys y wybodaeth honno hefyd. Cytunodd yr Arweinydd Craidd Cynradd gyda'r sylwadau a dywedodd nad oes data cadarn ar gael ar y funud oherwydd y pandemig, ond y byddai'n cael ei gynnwys pan fydd data cadarnach ar gael. Adroddodd ar y rôl weinyddol newydd ar gyfer rhaglenni arweinyddiaeth a fydd yn gyfrifol am wahanu'r data ar gyfer bob awdurdod lleol er mwyn ei gyflwyno i bwyllgorau. Mae penaethiaid wedi derbyn cymorth gyda'r adroddiadau hunanwerthuso gan fod ysgolion wedi bod dan lawer o bwysau a phenaethiaid yn brin o amser i fyfyrio ar y pethau cadarnhaol a'r meysydd i'w gwella.

Canmolodd y Cadeirydd y ffordd effeithlon y mae GwE wedi darparu cymorth i ysgolion a dywedodd ei fod yn falch o weld newidiadau cadarnhaol mewn addysg gyda lles yn cael ei roi wrth wraidd pethau, sydd yn ei farn ef yn bwysig i sicrhau bod ysgolion yn derbyn y cymorth cywir.

Gofynnodd y Cynghorydd Gladys Healey a oes gwybodaeth ynglŷn â faint o benaethiaid a staff addysg a ddaliodd Covid-19 a'r niferoedd sy'n dioddef o Covid hir gan nad oes gan y gogledd glinig Covid hir. Mae'r sefyllfa yn yr ysgolion yn anrhagweladwy a theimlodd y Cynghorydd Healey y dylai pob disgybl dderbyn brechlyn er mwyn mynd yn ôl i'r ystafell ddosbarth.

Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor fod hwn yn fater i'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu. Cadarnhaodd fod penaethiaid, GwE a'r Cyngor wedi llwyr gefnogi ysgolion a bod y cynnydd yn nifer yr achosion, fwy na thebyg, yn ganlyniad i ddigwyddiadau y tu allan i'r ysgol. Canmolodd y ffordd y mae swyddogion GwE a Sir y Fflint wedi cefnogi ysgolion drwy gydol y pandemig, sydd wedi galluogi'r ysgolion i barhau i berfformio i safon uchel.

Cafodd yr argymhelliad, fel y nodir yn yr adroddiad, ei gynnig gan y Cynghorydd Martin White a'i eilio gan y Cynghorydd Ian Smith.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn derbyn Adroddiad Blynyddol GwE; ac yn

(b) Nodi'r effaith gadarnhaol y gwasanaeth rhanbarthol wrth gefnogi ysgolion Sir y Fflint yn ystod y pandemig a'u paratoadau i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

## 10 CYFRYNGAU CYMDEITHASOL A DIOGELWCH AR Y RHYNGRWYD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Uwch-Reolwr Gwella Ysgolion a'r Ymgynghorydd Dysgu (Iechyd, Lles a Diogelu) i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am bolisi Cyfryngau Cymdeithasol a Diogelwch ar y Rhyngrwyd y Portffolio, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a lles dysgwyr. Mae technoleg wedi caniatáu i addysg barhau yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, er y manteision, mae ymddygiad a chynnwys niweidiol ar-lein yn gallu rhoi dysgwyr mewn perygl os nad oes strategaethau priodol ar waith. Cadarnhaodd fod yr Awdurdod a'r ysgolion yn cymryd y cyfrifoldeb hwn o ddifrif.

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Dysgu (Iechyd, Lles a Diogelu) yr adroddiad a gyflwynwyd i sicrhau'r Pwyllgor bod plant a phobl ifanc yn derbyn cymorth priodol mewn perthynas â'r cyfryngau cymdeithasol a diogelwch ar y rhyngrwyd. Mae'r adroddiad yn amlygu gwaith yr Awdurdod ynghyd â'r canllawiau cenedlaethol. Mae llwyfannau cyfryngau cymdeithasol wedi galluogi ysgolion a'r Awdurdod i gyfathrebu'n gyflym gyda phlant a rhieni ond mae yna fanteision ac anfanteision, gyda phobl ifanc yn wynebu'r un heriau ag oedolion sy'n defnyddio'r llwyfannau hyn. Mae'r adroddiad yn cynnwys data a chanllawiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, sydd bellach yn cael eu dilyn yn lleol. Darperir gwybodaeth am y Fframwaith Cymhwysedd Digidol a Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion a chadarnhawyd y bydd yr arolwg nesaf yn cael ei gynnal yn ystod yr hydref.

Tynnodd yr Ymgynghorydd Dysgu sylw'r aelodau at y Mesur Diogelwch Ar-lein, y Cynllun Gweithredu, y Canllawiau a'r Cwricwlwm i Gymru. Amlinellwyd gwybodaeth am gylch gwaith Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan ynghyd â'r rhaglen "Getting on Togerther" sy'n edrych ar herio eithafiaeth. I gloi, amlinellodd Fframwaith Arolygu newydd Estyn a dywedodd y bydd prosiect peilot yn dechrau yn ystod gwanwyn 2022.

Croesawodd y Cynghorydd Mackie yr adroddiad a'r dolenni at ddogfennau ar-lein cysylltiedig. Fel llywodraethwr ysgol, gofynnodd pa gwestiynau y dylai ef fod yn gofyn i'w ysgolion ac a yw ysgolion yn gwybod am yr adroddiad hwn.

Mewn ymateb, eglurodd yr Ymgynghorydd Dysgu fod gan yr Awdurdod ddyletswydd i ddarparu hyfforddiant a chyngor priodol a bod hyn eisoes yn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Portffolio. Ychwanegodd ei bod yn gobeithio y bydd hyfforddwr sydd wedi darparu hyfforddiant ar gyfer y rhaglen ysgolion yn gallu

cynnal sesiwn i lywodraethwyr ysgol a fydd yn cynnwys cwestiynau iddynt ofyn i'w cyrff llywodraethu.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Martin White at bwynt 1.08 lle nodir fod 68 allan o 78 o ysgolion wedi cofrestru ar gyfer 360 Degree Safe Cymru a gofynnodd sut y mae modd annog y 10 ysgol sy'n weddill i gofrestru. Mewn ymateb dywedodd yr Uwch-Reolwr fod hwn yn offeryn pwysig ond bod rhai ysgolion o bosibl yn defnyddio offerynnau eraill sydd ar gael. Fodd bynnag, cytunodd y byddai o fantais petai bob ysgol yn cofrestru. Bydd hyn yn rhywbeth a fydd yn cael ei annog yn y flwyddyn academaidd newydd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffigyrau bwlio seiber disgybl i ddisgybl, sydd i lawr i 20% o ddysgwyr yn rhoi gwybod am achosion o'r fath o gymharu â 23% yn 2017 (ond sy'n dal yn uwch na'r cyfartaledd o 18%). Cyfeiriodd at y Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd i'r Cyngor yn 2019, lle llofnododd bob aelod addewid i beidio â defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd sy'n dirmygu unigolion eraill. Gofynnodd sawl aelod a fyddai'n gallu ailddatgan yr addewid hwnnw.

Roedd yr Ymgynghorydd Dysgu yn cefnogi sylwadau'r Cadeirydd ac awgrymodd y gall hyn a bwlio ar-lein gael ei hyrwyddo yn y flwyddyn academaidd newydd a'i gynnwys mewn newyddlenni ysgol, ar Twitter a gwefannau ac ati. Gall Tîm Cyfathrebu'r Awdurdod hyrwyddo hyn ymhellach a gwneud safiad yn erbyn bwlio seiber, sy'n bwysig iawn. Cefnogwyd hyn gan y Pwyllgor.

Talodd y Cynghorydd Axworthy deyrnged i'r diweddar y Cynghorydd Kevin Hughes a oedd yn cefnogi dod â bwlio seiber i ben. Dywedodd fod hwn yn bwnc pwysig iawn a chroesawodd yr hyfforddiant i lywodraethwyr a'r camau i symud hyn yn ei flaen.

Gofynnodd y Cynghorydd Gladys Healey a oes modd cynnwys ysgolion cynradd yn ogystal ag ysgolion uwchradd gan fod plant iau hefyd yn defnyddio ffonau a'r cyfryngau cymdeithasol. Teimlodd y Cynghorydd Healey petai plant yn dysgu sut i barchu ei gilydd a sut i ddilyn y polisi dim bwlio yn ifanc iawn yna, erbyn iddynt fynd i'r ysgol uwchradd, byddai hynny'n helpu i leihau'r problemau.

Mewn ymateb cadarnhaodd yr Ymgynghorydd Dysgu bod yr arolwg yn cael ei gynnal mewn ysgolion uwchradd yn unig ond bod prosiect peilot yn cael ei gynnal gydag ychydig o ddisgyblion blwyddyn 6. Cafodd y prosiect peilot cynradd ei oedi oherwydd y pandemig ac nid oes amserlen ar ei gyfer ar y funud. Fodd bynnag, mae negeseuon allweddol ynglŷn â diogelwch ar-lein wedi'u cynnwys yn y cwricwlwm o'r cyfnod sylfaen ymlaen.

Cafodd yr argymhelliad, fel y nodir yn yr adroddiad, ei gynnig gan y Cynghorydd Janet Axworthy a'i eilio gan y Cynghorydd Sian Braun.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r adroddiad; a

(b) Bod y Pwyllgor wedi'u sicrhau ynghylch lefel y sicrwydd a roddir ar gyfer y cynnig addysg i ysgolion mewn perthynas â diogelwch ar-lein, yn cynnwys y cyfryngau cymdeithasol.

## 11 DECHRAU'R DDYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd Polisi Strategol a'r Rheolwr Budd-Daliadau yr adroddiad ar baratoadau'r Cyngor ar gyfer dechrau'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Mae rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau yn sgil anfantais economaidd-gymdeithasol yn ofyniad statudol ar gyrff cyhoeddus perthnasol.

Darparodd yr Ymgynghorydd Polisi Strategol a'r Rheolwr Budd-daliadau gyflwyniad ar y cyd yn ymdrin â'r canlynol:

- Beth yw'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a beth mae'n ei wneud?
- Telerau allweddol
- Anghydraddoldebau canlyniadau
- Enghreifftiau o dlodi
- Dangos sylw dyledus – trywydd archwilio
- Cyflawni'r ddyletswydd – beth ydym ni'n ei wneud
- Canlyniadau gwell
- Astudiaeth achos

Darparodd y cyflwyniad enghreifftiau ehangach o dlodi sy'n cyd-fynd ag un o flaenoriaethau Cynllun y Cyngor. Mae'r adroddiad yn cael ei rannu gyda'r holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu i godi ymwybyddiaeth o'r ymrwymiadau newydd. Ymysg y camau gweithredu, byddai cynnwys canlyniadau Asesiad o Effaith Integredig ar adroddiadau pwyllgor yn gymorth i ddangos ystyriaeth o effeithiau posibl tlodi wrth wneud penderfyniadau strategol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Portffolio Addysg a'r agwedd tlodi bwyd, a bod prydau ysgol am ddim yn gymorth i fynd i'r afael â hyn. Mae tlodi digidol wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar, gyda dysgu o bell a dysgu cyfunol a dyfeisiau'n cael eu darparu i wneud yn siŵr bod plant yn gallu parhau i ddysgu. Gofynnodd a oes ffordd arall y gall addysg ac ysgolion gynorthwyo gyda'r agwedd hwn ar dlodi. Mewn ymateb, dywedodd yr Ymgynghorydd Polisi Strategol y dylid ystyried tlodi a'r plant a'r teuluoedd a effeithir arnynt wrth godi ysgolion newydd neu gynllunio strategaethau newydd. Hefyd, dylid sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei darparu i helpu teuluoedd dderbyn y cymorth a'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt.

Ychwanegodd yr Uwch-Reolwr fod tlodi yn uchel ar raglen y Portffolio Addysg, gyda'r Prif Swyddog yn arwain y gwaith. Mae ysgolion eisoes yn edrych ar anghenion eu dysgwyr a'u teuluoedd ac yn darparu cymorth. Dywedodd fod cynhwysiant digidol yn rhan o'r Strategaeth Ddigidol, gyda thema newydd Dysgu a Diwylliant i ddatblygu hyn ymhellach. Mae'r Portffolio Addysg yn croesawu'r fframwaith i agor trafodaeth ehangach i gefnogi anghenion dysgwyr a theuluoedd.

Diolchodd y Cynghorydd Cunningham i'r swyddogion am y cyflwyniad a dywedodd fod tlodi wedi gwaethygu oherwydd y pandemig. Dywedodd fod tlodi yn effeithio ar amrywiaeth o bobl ond ei fod yn braf clywed fod y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i leddfu problemau.

Cafodd yr argymhellion, fel y nodir yn yr adroddiad, eu cynnig a'u heilio gan Mrs Lynne Bartlett a'r Cynghorydd Paul Cunningham.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi gofynion y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol; a

(b) Bod y Pwyllgor wedi derbyn sicrwydd bod y Cyngor yn barod i gyflawni'r ddyletswydd newydd.

## 12 ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD DIWEDD BLWYDDYN

Cyflwynodd yr Uwch-Reolwr (Newid Busnes a Chymorth) yr adroddiad a oedd yn darparu trosolwg o gynnydd gweithgareddau, lefelau perfformiad a lefelau risg presennol fel y nodwyd yng Nghynllun y Cyngor. Oherwydd bod yr ysgolion wedi bod ar gau nid oedd modd casglu ffigyrau targedau perfformiad allweddol ar gyfer presenoldeb, gwaharddiadau neu ddim mewn addysg na chyflogaeth ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yr Uwch-Reolwr yn falch o amlygu tri tharged perfformiad sydd wedi symud i wyrdd a melyn, yn cynnwys y system cyfiawnder ieuenctid a oedd wedi gweld gostyngiad yn nifer y bobl ifanc newydd i'r system.

Cyfeiriodd yr Uwch-Reolwr (Newid Busnes a Chymorth) at sylwadau'r Cynghorydd Mackie ynglŷn â chymorth i lywodraethwyr ysgol a dywedodd fod gwybodaeth am ddiogelu, mynediad at hyfforddiant 360 a chwestiynau y dylai llywodraethwyr ofyn ar gael yn Governors Cymru a bod modd i ysgolion ddefnyddio'r adnodd hwn. Awgrymodd fod hyn yn cael ei gynnwys fel cam gweithredu i atgoffa llywodraethwyr bod ganddynt fynediad at y wefan ddefnyddiol hon.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mackie at fformat adroddiadau eithrio, sy'n glir ac yn hawdd eu darllen yn enwedig y nodiadau ar y gwaelod, a chroesawodd y ffaith bod aelodau yn gallu deall y data yn iawn.

Cafodd yr argymhelliad, fel y nodir yn yr adroddiad, ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Gladys Healey ac Ian Smith.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r Adroddiad Monitro Perfformiad Diwedd Blwyddyn.

## 13 AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd na'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a gorffennodd am 4:16pm)

..............................

**Y Cadeirydd**